# Y Pwyllgor Busnes

| | | |
|---|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>National Assembly for Wales |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 18 Mawrth 2013** | |
| Amser: | **15:00 – 15:19** | |

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Jocelyn Davies**<br>**William Graham**<br>**Lesley Griffiths (yn lle Jane Hutt)**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Claire Fife, Llywodraeth Cymru**<br>**Sarah Canning, Llywodraeth Cymru** |

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Croesawodd y Pwyllgor Busnes Lesley Griffiths fel y Gweinidog newydd ar gyfer busnes y Llywodraeth (yn dirprwyo ar ran Jane Hutt tan iddi gael ei hethol yn ffurfiol i'r Pwyllgor Busnes).

## 2. Diwygiadau i Reolau Sefydlog 26 a 26A: Y Cyfnod Ailystyried

Cytunodd y rheolwyr busnes mewn egwyddor i'r diwygiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog 26 a 26A.

## 3. Diwygiadau i Reolau Sefydlog 21 a 27: Cyflwyno Adroddiadau ar Offerynnau Statudol

Cytunodd y rheolwyr busnes mewn egwyddor i'r diwygiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog 21 a 27.

## 4. Diwygiadau i Reolau Sefydlog 29 a 30: Cydsyniad mewn Perthynas â Biliau Senedd y DU

4(i) Biliau Perthnasol (Rheolau Sefydlog 29.1, 29.2 a 30)

Dywedodd y Gweinidog dros Fusnes y Llywodraeth wrth y pwyllgor fod y Llywodraeth wedi methu dod i gytundeb â Swyddfa Cymru ynghylch diwygio Nodyn Canllaw Datganoli 9 yn unol â'r newiadau arfaethedig hyd yma. Oherwydd hynny, ni allai'r Llywodraeth dderbyn yr holl welliannau ar hyn o bryd a gofynnodd am fwy o amser i drafod â Swyddfa Cymru.

Cytunodd y rheolwyr busnes i ystyried ymhellach y diwygiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog 29.1, 29.2 a 30 mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Busnes yn y dyfodol.

4(ii) Gwybodaeth mewn Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Rheol Sefydlog 29.3)

Cytunodd y rheolwyr busnes mewn egwyddor i'r diwygiadau i Reol Sefydlog 29.3.

4(iii) Cyfeirio at Bwyllgor (Rheolau Sefydlog 29.4 a 29.5)

Cytunodd y rheolwyr busnes mewn egwyddor i'r diwygiadau i Reol Sefydlog 29.4 ac i ddileu Rheol Sefydlog 29.5.

4(iv) Cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol (Rheolau Sefydlog 29.2A a 29.6)

Cytunodd y rheolwyr busnes mewn egwyddor i Reol Sefydlog 29.2A newydd a Rheol Sefydlog 29.6 diwygiedig.